Llafur Cymdeithas Hanes Pobl Cymru

Taflen Newyddion **Gaeaf 2007/8**

ADRODDIAD Y GADAIR

Alun Burge

Yn y lle cyntaf diolch i Stephanie Ward am wirfoddoli i gynhyrchu taflen ar-lein gyntaf Llafur. Bydd yr allfa hon yn caniatáu i aelodau, ac eraill fydd â diddordeb yn y Gymdeithas a'i ddigwyddiadau o gylch hanes y Cymry i gadw'n flaengar gyda'n gwaith.

Rheolwyd Llafur am 38 mlynedd gan aelodau a ymroddodd i ystyried y gorffennol gyda'r weledigaeth i oleuo'r presennol ac fel sail i lunio'r dyfodol. Cymdeithas sydd yn croesawu rhywun sydd â diddordeb yn hanes y Cymry yw Llafur.

Erioed rydym wedi cael aelodaeth amrywiol, yn cynnwys academyddion a gweithredwyr ymysg eraill. Yn y 1970au a'r 1980au, roedd gan y Gymdeithas gysylltiadau agos â mudiad llafur, er, wrth i'r Prydain ddiwydiannol ail-strwythuro, felly hefyd newidiodd y Gymdeithas. Adlewyrchwyd hyn yn newid yr enw i Llafur: Cymdeithas Hanes y Cymry. Rydym yn parhau i gadw ein gwerthoedd, gyda'n amrywiol ymdriniaeth a ddangosir yn ein dyhead i gydweithio a cheisio mewnbwn i ddigwyddiadau gydag eraill. Felly, parhawn ni a'n ysgolion dydd yn berthnasol i faterion cyfoes. Cynigiwyd rhaglen llawn dop yn ein cynhadledd ddiweddaraf ar "Dychmygu'r Cymoedd: Bywyd, Gwaith a Chymuned". Arweiniwyd cyfres o gyflwyniadau gan Peter Wakelin a edrychodd ar waith Joseph Herman and Heinz Koppel, arlunwyr mewnfudol ffoadur y 1940au a gofynodd y cwestiwn am gyfraniad y genhedlaeth gyfoes o geiswyr lloches, ffoaduriaid a mewnfudwyr i Gymru. Trafododd cynhadledd boblogaidd arall a gynhaliwyd ym Mlaenafon gyda Sefydliad Bevan yn ddiweddar, "Adfywio gorffennol, presennol a dyfodol y Cymoedd". Denodd hwn haneswyr, gwneuthurwyr poilsïau a gweithredwyr cymunedol. Fel sefydliad Cymru-eang, mae Llafur yn ystyried cynnal digwyddiadau'r dyfodol yng ngogledd a gorllewin Cymru.

Cymer y "digwyddiad-ar-y-cyd" gyda CyMAL nesaf ffurf wahanol. Ymfalchïwn fod gan ddogfen newydd Llywodraeth Cynulliad Cymru *One Wales*, ymrwymiad i *sefydlu Casgliad Cymru-gyfan o Hanes Pobl, a gynorthwyir gan weithlu curaduron parhaol sydd â chyfrifoldeb am ddyrchafiad a datblygiad y casgliad.*

Cynhaliwyd trafodaethau rhwng y Gymdeithas a CyMAL, sydd yn rhan o Lywodraeth y Cynulliad â'r cyfrifoldeb am gario'r ymrwymiad, ynglŷn â chynnwys y cynnig. O ganlyniad, cynhelir digwyddiad ymgynghorol o dan nawdd Llafur a CyMAL i aelodau Llafur yng Nghaerdydd ar 1 Mawrth 2008. Hwn fydd y cyfle i aelodau'r Gymdeithas drafod eu barn a helpu llunio'r ffordd ddylai polisi ar Hanes y Cymry fod a sut gallai ei weithredu gyda swyddogion Llywodraeth y Cynulliad. I ryw raddau, gwna fodolaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ddeialog o gylch ddatblygiad polisi, yn wyriad newydd - o edrych ar hanes polisi i bolisi hanes. Yn ogystal, y mae'n gyson â'r gwaith a arweiniwyd gan Hywel Francis a wnaethom yn yr 1980au cynnar, edrych ar faes newydd o'r berthynas rhwng hanes a threftadaeth, ynghyd â'r gwaith a wnaed gan Gylch Athrawon Llafur ar ddatblygiad

cwricwlwm. Ystyria bwyllgor y Gymdeithas yr ymgynghoriad hwn â CyMAL yn bwysig, a estynnir gwahoddiad i aelodau Llafur sydd am gyfranogi i gysylltu ag Ysgrifenyddes Llafur, Siân Williams ar s.f.williams@swansea.ac.uk, i gadarnhau eu presenoldeb.

Fel y sonnir yn y daflen cartref, rydym yn awr yn derbyn ceisiadau wrth fyfyrwyr i astudio hanes y Gymdeithas. Gobeithio y sylwant fod rhai pethau wedi parhau'n gyson yn ystod ein bodolaeth:

- Digwyddiadau perthnasol a chyffrous yn cael eu trosglwyddo am ddim neu am gost isel.
- Cyfnodolyn sydd yn gynhalydd safonol i'r Gymdeithas, ynghyd â'n un o allfeydd pwysicaf 'cynhyrchiad' hanes yng Nghymru. Mae iddo gynnwys sydd yn parhau i adlewyrchu ein 'gwerthoedd traddodiadol', tra hefyd yn adlewyrchu newid ffocws a diddordeb.
- Ac yn bennaf, aelodaeth ymroddedig sydd yn creu awyrgylch bleserus!

Ac os nad ydych eisoes yn aelod o Llafur, rwy'n gobeithio eich bod wedi darllen digon i'ch argyhoeddi ein bod yn werth ymuno â hwy!

CCB

Amgueddfa Waterfront, Abertawe
Sadwrn 3 Tachwedd, 2007

Yn dilyn ysgol ddydd llwyddiannus ar Ddiwylliant Weledol yng Nghymru fodern, cynhaliwyd CCB Llafur. Trafodwyd cynnydd y Gymdeithas yn y flwyddyn gynt ac etholwyd swyddogion newydd.

Ymddiswyddodd Steve Thompson fel Ysgrifennydd wedi blynyddoedd lawer yn y swydd. Diolchwyd iddo am ei ymroddiad a'i waith caled. Mae Siân Williams wedi cymryd y swydd ac wedi ymddiswyddo fel Trysorydd. Stephanie Ward yw'r Trysorydd newydd.

Nodwyd llwyddiant cyfrol diweddar Cymdeithas Addysg Gweithwyr a gyhoeddwyd gan Llafur a golygwyd gan aelod pwyllgor gweithredol Joe England. Mae copïau o *Changing Lives: Workers' Education in Wales 1907-2007* ar gael i brynu drwy siop lyfrau Llafur.

Nododd Neil Evans, un o olygyddion y cyfnodolyn, yn ei adroddiad sut gall aelodau Llafur edrych ymlaen at flwyddyn arall o gyhoeddiadau cyfnodol cyffrous.

Yn ychwanegol, trafodwyd rhaglen 2008 Llafur.

DIGWYDDIADAU LLAFUR SYDD AR DDOD:

Ymgynghoriad â CyMAL
Caerdydd,
1 Mawrth 2008

Estynnir gwahoddiad i aelodau Llafur fynychu ymgynghoriad gyda CyMAL i drafod barn, teimladau ac awgrymiadau ynglŷn â chasgliad hanes y Cymry arfaethedig.

Robert Owen a'i Etifeddiaeth
Neuadd Gregynog, Y Drenewydd
14-17 Awst 2008

Noda'r gynhadledd hon ben-blwydd o farwolaeth Robert Owen yn 150. Cynhelir y digwyddiad mewn partneriaeth ag ysgol dyniaethau Prifysgol Abertawe.

DIGWYDDIADAU DIWEDDAR:

Dychmygu'r Cymoedd: Bywyd, Gwaith a Chymuned

Amgueddfa Waterfront, Abertawe

Sadwrn, 3 Tachwedd 2007

Stephanie Ward

Yn gynnar yn Nhachwedd, mewn partneriaeth â Sefydliad Josef Herman cynhaliwyd ysgol-ddydd llwyddiannus ar ddiwylliant gweledol De Cymru fodern. Cynhaliwyd y digwyddiad yn Amgueddfa Waterfront sydd newydd ei agor yn Abertawe ac roedd yn ddarpariaeth gyffrous am ddiwrnod llawn cyflwyniadau a bryfociodd y meddwl.

Dechreuodd y diwrnod gan anerchiad agoriadol wrth y Cadeirydd **Dai Smith**. Nododd Smith pa mor gyffrous ydoedd i Llafur fod ynghlwm â'r digwyddiad ac eglurodd yr arwyddocâd Ewropeaidd o'r rhai hynny sydd wedi dychmygu Cymru. Soniodd Smith nad yw cymdeithas Cymru bob amser wedi gwerthfawrogi diwylliant gweledol ac yn ogystal, nad yw haneswyr Cymru chwaith wedi gwerthfawrogi celfyddyd fel tystiolaeth weledol. Teimlwyd bod angen ymdriniaeth haneswyr er mwyn datblygu dealltwriaeth fwy cynnil o gelfyddyd fel ffynhonnell hanesyddol. Yn olaf, awgrymodd Smith ddylai Llafur gynnal ysgol-ddydd ar ffotograffiaeth.

Y siaradwr cyntaf oedd **Peter Wakelin,** Ysgrifennydd Comisiwn Frenhinol Henebion Hynafol. Cyflwynodd Wakelin bapur ac arddangosfa o baentiadau gwaith Joseph Herman a Francis Koppel. Dechreuodd Wakelin nodi sut fyddai Herman a Koppel yn cael eu trin fel ceiswyr lloches heddiw gan i'r ddau ddianc rhag erledigaeth o buredigaeth ethnig yn eu mamwledydd. Daeth Herman i Brydain o Wlad Pwyl a Koppel o'r Almaen Natsïaidd. Nododd Wakelin bwysigrwydd y cyfraniad a wna mewnfudwyr, i gelfyddyd yn y cyswllt hwn a chwestiynodd ganfyddiadau mewnfudwyr yn y gymdeithas gyfoes.

Cyferbynnwyd weithiau Herman a Koppel a nodwyd eu pwysigrwydd i gelfyddyd Gymreig ac yn wir, Ewropeaidd.

Yn ail gyswllt y dydd, cyflwynodd **Hywel Francis** a **Siân Williams** bapur ar faneri a'u perthnasedd i ddiwylliant gweledol. Dechreuodd Hywel drwy nodi cysylltiad personol ei deulu â Joseph Herman. Parhaodd drwy drafod pa ddefnydd a wnaeth löwyr o Dde Cymru o faneri ac am ba reswm y crëwyd. Er iddo ymddangos mai yn y 1950au bu'r traddodiad cryfaf o fanneri, bu enghreifftiau o fanneri cyn hyn. Roedd 1910-1914 yn gyfnod mawr am greu baneri, er mai dim ond ychydig o'r baneri cyn y 1950au sydd nawr mewn bodolaeth. Dangoswyd ffotograffau o'r enghreifftiau gorau o faneri sydd nawr o dan ofal Casgliad Maes glo De Cymru.

Dadleuodd Hywel er nad oedd gan faes glo De Cymru'r un barchedigaeth am faneri ac oedd gan Durham, cawsant eu defnyddio gogyfer ag amrywiol ddibenion o'r 1950au. Arddangoswyd baneri yn ystod streiciau, gwrthdystiadau gwrth-Thatcher a ralïau gwrth-apartheid. Cedwir rhai o'r baneri o'r maes glo yng Ngwald Pwyl a soniodd Hywel am ei ymweliad a rhain. Traethodd Hywel araith addysgiadol a fywiogwyd gan atgofion doniol personol.

Dilynodd Siân gyflwyniad Hywel a thrafodaeth o'r gwaith a gyflawnir gan Lyfrgell Glowyr De Cymru i ddiogelu a gwneud baneri ar gael i'r cyhoedd. Diogelir y baneri yn haws nawr o ganlyniad i'r cymhorthdal a dderbyniwyd wrth Gronfa Loteri Treftadaeth. Nododd Siân y ceir ceisiadau cyson i ddefnyddio'r baneri er iddi gredu na chânt eu defnyddio'n ddigonol fel ffynhonnell

hanesyddol. Er mwyn ehangu'r maes lle gwelir y baneri, defnyddiwyd cymhorthdal Cronfa Loteri i wneud dyblygiadau ohonynt.

Er mwyn hyrwyddo'r ddealltwriaeth o'r baneri, mae Siân wedi datblygu dwy arddangosfa, un gyda baneri o bob cwr o Gymru (a ariannwyd gan CyMAL) a'r ail sydd yn canolbwyntio ar faneri'r glöwyr. Crëwyd nifer o adnoddau addysgiadol i gyd-fynd â'r arddangosfeydd. Gorffennodd Siân ei haraith drwy nodi nad baneri a grëwyd gan y SWMF a'r NUM yn unig a gesglir yn Llyfrgell y Glöwyr. Cedwir baneri cymdeithas cyfeillgar, baneri mudiad y menywod a baneri datganoli yn y casgliad. Ar hyn o bryd, mae'r gweithwyr yn Llyfrgell y Glöwyr yn ceisio sefydlu pa faneri eraill a ddelir gan bobl yn Ne Cymru.

Torrwyd i ginio wedi trafod papurau'r bore, a chafodd y cyfranogwyr gyfle i archwilio'r Amgueddfa Waterfront a marina Abertawe.

Dechreuwyd sesiwn y prynhawn gydag araith ar Ernest Zobole gan **Ceri Thomas**, mab Robert Thomas. Mae Ceri Thomas wedi bod ynghlwm yn gryf â chadwraeth gwaith Zobole ac mae wedi ennill ei ddoethuriaeth yn ddiweddar.

Thomas oedd curadur arddangosfa gwaith Zobole ym Mhrifysgol Morgannwg o 2002-07. Roedd Zobole yn fab i rieni mewnfudol Eidalaidd a trigodd gydol ei oes yng Nghymoedd y Rhondda. Roedd yn rhan o 'Gylch Rhondda', ymgynulliad llac o arlunwyr yn y 1950au a deithiodd o'r Rhondda i'r ysgol gelf yng Nghaerdydd ar y tren.

Crëodd Thomas bum arddangosfa o waith Zobole ym Morgannwg. Tynnodd yr arddangosfeydd ar agwedd arbenigol o baentiadau Zobole a gyferbynnodd elfen neu thema gyda chelfyddyd a diwylliant cyfoes. Er enghraifft, yn yr arddangosfa gyntaf, dechreuodd Thomas brosiect gyda Ysgol Gynradd Bodringallt yn Ystrad. Roedd gan Ystrad gyseinedd arbenigol gyda gwaith Zobole, yn aml yn ffurfio gosodiadau paentiadau, gan mai yma bu iddo wario y rhan fwyaf o'i fywyd. Darganfyddodd y plant y strydoedd a'r llefydd ym mhaentiadau Zobole a chreasant ffilm animeiddiedig eu hunain.

Cyfeiriodd Thomas at y ffaith mai ond ychydig a wyddys am Zobole a'i gyfoedion. Yr un cyntaf i sôn am y llu arlunwyr o Gylch Rhondda oedd Peter Lord a cheisiodd Thomas ddangos gwerth eu gwaith yn ei ail arddangosfa. Gorffennodd Thomas ei araith ychydig yn ingol gan ddadlau bod yr hanes diwylliant gyfoethog mae'r paentiadau yn darparu yn cael eu cadw dan glo yn aml a'u bont yn haeddu sylw manylach gan haneswyr.

Yn sesiwn ola'r dydd, cyflwynodd **Colin Thomas,** gwneuthurwr ffilm a rhaglen ddogfennol arweiniol Cymru agwedd arall o ddiwylliant gweledol Cymru. Cyn i'r ffilm ddogfennol- Dylan Thomas *Wales - Green Mountains, Black Mountains* (1942) gael ei sgrinio trafododd Thomas berthnasedd y darn.

Scriptiodd Dylan Thomas gyfanswm o bedwar-ar-ddeg ffilm a nododd Colin iddo sortio gwaith yn y diwydiant ffilm yn rheolaidd. Roedd Thomas wedi gweithio gyda Donald Thomas o "Strand Films" yn y 1930au a bu iddynt weithio gyda'i gilydd eto ar *Green Mountains, Black Mountains*. Gwelir y ffilm fel propaganda cyfnod y rhyfel ond dadleuodd Colin ei fod yn dangos ochr boliticaidd Dylan Thomas gan i'r llywodraeth geisio rhwystro'r ddogfen rhag cael ei ddarlledu. Y natur gynddeiriog a fynegodd Thomas ynglŷn ag amgylchiadau cymdeithasol y 1930au yn y gerdd a berodd syndod. Nid oedd cynnwys y ffilm i gyd yn wreiddiol ac roedd nifer o'r lluniau llonydd o *To-Day We Live* a ddangosodd effeithiau'r dirwasgiad yng Nghymoedd De Cymru yn glir iawn.

Cafwyd trafodaeth fywiog wedi'r sgriniad o'r ffilm.

Bu'r diwrnod yn llwyddiant ysgubol a mynegwyd diolch i aelodau Steve Thompson a Joseph Herman am drefnu'r digwyddiad. Sicrhaodd y cymysgedd o aelodau o Llafur, haneswyr celfyddyd ac aelodau Sefydliad Josef Herman inni gael dadleuon bywiog ar ôl bob sesiwn.

CYHOEDDIADAU DIWEDDAR YN HANES CYMRU:

Steven Thompson
Unemployment, Poverty and Health in Interwar South Wales
(Gwasg Prifysgol Cymru, 2007)

Matthew Cragoe & Chris Williams (eds.)
Wales and War: Society, Politics and Religion in the Nineteenth and Twentieth Centuries
(Gwasg Prifysgol Cymru, 2007)

Rhiannon Mason
Museums, Nations, Identities: Wales and Its National Museums
(Gwasg Prifysgol Cymru, 2007)

Anne Borsay & Sara Knight
Medical Records for the South Wales Coalfield C. 1890-1948: An Annotated Guide to the South Wales Coalfield Collection
(Gwasg Prifysgol Cymru, 2007)

Jane Aaron & Ursula Mason (eds.)
The Very Salt of Life: Welsh Women's Political Writings from Chartism to Suffrage
(Honno, 2007)

Angela V. John
Elizabeth Robins: Staging a Life
(Tempus, 2007)

Angela V. John & Revel Guest
Lady Charlotte Guest: An Extraordinary Life
(Tempus, 2007)

Angela V. John
War, Journalism and the Shaping of the Twentieth Century. The Life and Times of Henry W. Nevinson.
(I.B. Tauris, 2006)

Gellir prynu nifer o deitlau perthnasol i aelodau Llafur, yn cynnwys copïau cefn o gyfnodolion drwy siop lyfrau'r Gymdeithas yn nigwyddiadau Llafur neu drwy gysylltu â Siân Williams. Ymddangosir manylion llawn ar y wefan www.llafur.org.